# TGAU

3000N20-1A

S19-3000N20-1A

# CYMRAEG IAITH

**Uned 2**

**Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio**

DYDD MERCHER, 8 MAI 2019 – BORE



2 awr

**DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A**

3000N201A
01

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## DARN DARLLEN 1


# 100 o Arwyr Cymru

Arolwg barn ar-lein i ddod o hyd i'r 'Cymry gorau erioed' oedd **100 o Arwyr Cymru**. Dyma wybodaeth am y 10 arwr a gafodd y nifer uchaf o bleidleisiau gan y cyhoedd.

| Enw | Pwy oedd ef neu hi? | Nifer y pleidleisiau |
|---|---|---|
| Aneurin Bevan | Gwleidydd | 2,426 |
| Owain Glyndŵr | Tywysog Cymru | 2,309 |
| Tom Jones | Canwr | 2,072 |
| Gwynfor Evans | Gwleidydd | 1,928 |
| Richard Burton | Actor | 1,755 |
| Gareth Edwards | Chwaraewr rygbi | 1,685 |
| Dylan Thomas | Bardd | 1,630 |
| David Lloyd George | Gwleidydd | 1,627 |
| Robert Owen | Dyngarwr | 1,621 |
| Saunders Lewis | Awdur a gwleidydd | 1,601 |


Owain Glyndŵr


Tom Jones


Gwynfor Evans


Richard Burton


Gareth Edwards


Aneurin Bevan


Saunders Lewis

## DARN DARLLEN 2

Darllen   Golygu   Golygu cod y dudalen   Gweld yr hanes   Chwilio Wicipedia

**Hafan**
**Y Caffi**
**Materion cyfoes**
**Newidiadau diweddar**
**Erthygl ar hap**
**Cymorth**

### Arwr

Mae sawl ystyr i'r gair **arwr** (benywaidd: **arwres**). Mae'r gair **Cymraeg** yn cynnwys y gair 'gŵr' gydag 'ar' o'i flaen. 'Rhyfelwr' yw hen ystyr 'gŵr' ac mae'r 'ar' yn cryfhau ystyr y gair. Felly, mae arwr yn golygu 'rhyfelwr dewr'. Mae gan **arwr** nerth neu ddawn anghyffredin. Newidiodd y gair i olygu unrhyw un sy'n ddewr neu sy'n barod i aberthu ei hun er mwyn eraill. Gall olygu prif gymeriad cerdd neu nofel yn ogystal. Erbyn heddiw mae'r defnydd o'r gair wedi newid cymaint fel bod pobl fel pêl-droedwyr yn cael eu disgrifio fel "arwyr".

**DARN DARLLEN 3**

*LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU*

**Chwilio**

Darganfod    Gwasanaethau    Casgliadau    Gwybodaeth

## Arwyr!

**Pryd?** **18 Mawrth (parhau am flwyddyn)**

**Lleoliad?** **Uwch Gyntedd**



# ARWYR!

**#GwladGwlad**

Cyfle i ddod wyneb yn wyneb ag arwyr Cymru o'r Casgliad Portreadau Cenedlaethol. Bydd rhai wynebau cyfarwydd fel Ruth Jones, Ryan Giggs, David Lloyd George a Dafydd Iwan yn cael eu dangos trwy gydol y flwyddyn ochr yn ochr â phaentiad arbennig o dîm pêl-droed Cymru gan y gôl-geidwad proffesiynol a'r artist Owain Fôn Williams.




**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU

**Oriau Agor** Llun-Gwener 9.00am-6.00pm
Sadwrn 9.30am-5.30pm

3000N201A
03

**DARN DARLLEN 4**



**ARWRES Y CYMRY**

**Gwenllian**

| | |
|---|---|
| Enw llawn: | Gwenllian ferch Gruffudd |
| Pwy oedd hi? | Tywysoges y Deheubarth |
| Geni: | Tua 1100 yn Aberffraw, Ynys Môn |
| Marw: | Tua 1136 yng Nghastell Cydweli |
| Tad: | Gruffudd ap Cynan, Tywysog Gwynedd |
| Mam: | Angharad ferch Owain |
| Gŵr: | Gruffudd ap Rhys, Tywysog y Deheubarth |
| Plant: | Morgan ap Gruffudd<br>Maelgwyn ap Gruffudd<br>Rhys ap Gruffudd |
| Arwres oherwydd: | Roedd hi'n byw mewn cyfnod pan oedd y Cymry yn ymladd i amddiffyn eu tiroedd rhag y Normaniaid. Tra oedd ei gŵr yng Ngwynedd gyda Gruffudd ap Cynan yn trafod brwydro yn erbyn y Normaniaid, daeth rhai o'r Normaniaid i ymosod ar gastell Cydweli ac arweiniodd Gwenllian y fyddin yn eu herbyn. Cafodd ei dal ac yn dilyn y frwydr torrwyd ei phen. Cafodd ei mab, Morgan, ei ladd yn y frwydr a chafodd mab arall iddi, Maelgwyn, ei ddal a'i ddienyddio. Er i Gwenllian golli'r frwydr, ysbrydolodd hi'r Cymry i frwydro'n ffyrnicach yn erbyn y Normaniaid ac roeddent yn galw am ddial am farwolaeth Gwenllian wrth fynd i frwydro am beth amser wedyn. Maes Gwenllian yw'r enw ar y cae lle bu hi farw ac mae ffynnon yn y cae wedi ei henwi ar ei hôl hi hefyd. Dyma'r unig enghraifft o ferch yn arwain brwydr yn yr Oesoedd Canol. |

**DARN DARLLEN 5**

| golwg 360 | Hafan | Newyddion | Chwaraeon | Bwyd | Blog |
|---|---|---|---|---|---|

## Lansio Cystadleuaeth 'Ffermwraig y Flwyddyn'


Bydd cystadleuaeth 'Ffermwraig y Flwyddyn' yn cael ei lansio'r wythnos yma gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr *(NFU)*.

Bydd enillydd y gystadleuaeth yn derbyn gwobr o £500 a bydd y person a enwebodd yr enillydd yn derbyn gwerth £50 o dalebau siopau fferm a nwyddau.

**Arwresau cudd y diwydiant**
"Menywod sydd yn ffermio yw arwresau cudd y diwydiant," meddai Llywydd *NFU* Cymru, Stephen James. "Mae llawer yn osgoi sylw ac yn dewis cyfrannu yn y cefndir. Mae'r gystadleuaeth yma ar gyfer y menywod sydd ddim yn sylweddoli bod eu cyfraniad yn eu gwneud nhw'n arbennig."

Bydd y cyfnod enwebu yn dod i ben ddydd Llun, Mehefin 19.

**DARN DARLLEN 6**




Llyfr yn cynnwys profiadau rhai o gefnogwyr pêl-droed Cymru wrth iddynt ddilyn eu harwyr yw *Merci Cymru*. Dyma atgofion Iola Wyn a Laura McAllister a rannodd eu storïau am ddilyn y tîm pêl-droed cenedlaethol i Ffrainc ar gyfer cystadleuaeth Ewro 2016.

**O Bydded i'r Gobaith Barhau!**
**Iola Wyn**

Tachwedd 17, 1993 y gwyliais fy ngwlad yn chwarae pêl-droed am y tro cyntaf erioed. Fyddwn i ddim wedi mynd i'w cefnogi oni bai bod fy nghariad newydd wedi cynnig tocyn i mi, a minnau'n ceisio creu argraff. Roedd angen i Gymru guro Romania er mwyn cyrraedd rownd derfynol prif bencampwriaeth pêl-droed am y tro cyntaf oddi ar 1958. Doeddwn i ddim yn deall pwysigrwydd y gêm, ond fe deimlais y siom pan fethodd Paul Bodin y gic o'r smotyn a chwalu gobeithion Cymru. Fe ddechreuais i fynd i fwy a mwy o gemau a dod i arfer â'r torcalon o golli. Flwyddyn yn ddiweddarach, roeddwn i wedi priodi'r cariad ac fe gafodd Iwan deithio i 99% o gemau oddi cartre Cymru. Roedd ef a'i ffrindiau wedi bod yn hynod ffyddlon wrth ddilyn y tîm. Roedd amod wrth gwrs i holl dripiau'r dynion oddi cartre, sef bod y gwragedd yn cael trip pe bai Cymru, ryw ddydd, yn cyrraedd rowndiau terfynol pencampwriaeth pêl-droed. Pan gurodd Cymru Andorra, dechreuodd y cynllunio mawr ar gyfer Ffrainc 2016. Dw i'n fwy na pharod i rannu profiadau ar gyfryngau cymdeithasol fel arfer. Ond methais ag ysgrifennu unrhyw beth o werth am fy mhrofiad o fod yn Ffrainc ar y pryd, oherwydd yr ofn na fedrwn gyfleu'r gwir deimlad o fod yno. Allai geiriau ddim gwneud cyfiawnder â'r wefr a brofais yn ystod y mis. Ond mi geisia' i wneud hynny nawr.

Bordeaux oedd lleoliad y gêm gyntaf felly Bordeaux fyddai ein cartref am bythefnos a hynny mewn abaty. Roedd y cynnwrf a'r llawenydd ein bod ni o'r diwedd yn mynd i wylio ein gwlad mewn prif bencampwriaeth yn gwbl drydanol. Roedd pawb yn bownsio o un lle i'r llall, pawb yn siarad fel pwll y môr a chysgu yn amhosib. Roedd yr adrenalin yn drech na'r blinder. Roedd hanner Cymru wedi teithio i Bordeaux ac roedden ni i gyd yn yr un stad o iwfforia. Tynnwyd lluniau di-ri: yn ffrindiau, yn deuluoedd, yn blant gyda'u rhieni, yn blant gyda rhieni plant eraill, yn gymysg oll i gyd. Roedden ni yna… gyda'n gilydd. Roedd cymaint o Gymraeg i'w glywed ym mhob twll a chornel o strydoedd Bordeaux ac roedd mwy o Gymry Cymraeg yno nag ar faes yr Eisteddfod ar ddiwrnod y cadeirio. Mi fentra' i ddweud bod llawer mwy nag 19% o boblogaeth stadiwm Bordeaux yn siarad Cymraeg y noson honno ac roedd hynny ynddo'i hun yn ychwanegu at fawredd yr achlysur. Go brin y clywa' i'r anthem yn cael ei chanu gyda'r fath angerdd fyth eto.

Er i Iwan aros yn Ffrainc trwy gydol y gemau grŵp, fe fûm i'n gydwybodol a dychwelyd i'r gwaith a sicrhau bod y plant yn cael rhywfaint o addysg. Fe wylion ni gêm Cymru yn erbyn Lloegr ar y teledu gartref. Wrth gwrs, dychwelyd i Bordeaux wnes i a'r bechgyn y penwythnos wedyn. Pe bai Cymru yn llwyddo yn y byd pêl-droed fe fyddai gweddill y byd yn gwybod amdanom. O bydded i'r gobaith – a'r hyder – barhau!



**Iola Wyn**

**Gorau Chwarae, Cyd Chwarae**
**Laura McAllister**



**Laura McAllister**

Wrth i mi deithio adre o'r gêm gynderfynol hanesyddol honno yn Lyon, yn llygatgoch ac yn wan yn emosiynol, teimlai fel dechrau a diwedd. Diwedd siwrnai bêl-droed hudol ac unigryw ond ar yr un pryd, dechrau deffro hyder cenedlaethol ein cenedl fach ni. Dyna'r mis mwyaf lledrithiol, bendigedig, ardderchog dw i'n ei gofio.

Er ei fod yn brofiad torfol, mae ein hatgofion o Ffrainc 2016 hefyd yn bersonol. Rwy'n meddwl, i lawer ohonon ni, fod ein hatgofion o'r Ewros yn rhan o siwrnai hir o gefnogi Cymru. Yn bersonol, mae gen i atgofion o gicio pêl a gwylio Caerdydd yn chwarae am y tro cyntaf a minnau prin mwy na chroten fach. Felly, pan ddaeth hi i'r gêm gyntaf, yn erbyn Slofacia ym mhrydferthwch Bordeaux, dyma'r uchafbwynt i oes o ddisgwyl. Efallai mai dyna'r rheswm ei fod mor orfoleddus – yr holl brofiad o wersylla gyda fy nheulu a fy ffrindiau agos. Diwrnod y gêm a fy merch yn dawnsio gyda grŵp o Sbaenwyr ar brif stryd Bordeaux. Yna'r anthem a minnau'n gwybod sut deimlad yw sefyll mewn rhes cyn gêm yn barod ar gyfer yr Anthem Genedlaethol. Cefais y fraint o gynrychioli fy ngwlad wrth chwarae pêl-droed. Roedd canu'r anthem wastad yn brofiad emosiynol iawn i mi fel aelod o'r tîm. Yna'r gêm gyda chic rydd Bale a gôl wych Hal Robson-Kanu. Ar y diwrnod hwnnw yn Bordeaux fendigedig, ro'n i'n teimlo ein bod ar drothwy rhywbeth llawer mwy.

Fe es i i bob un o gemau Cymru yn Ffrainc 2016. Ro'n i'n teimlo fy mod i wedi aros am y foment hon drwy gydol fy mywyd. Fe aeth y pêl-droed y tu hwnt i'n disgwyliadau. Fe enillodd chwaraewyr Cymru edmygedd cefnogwyr yn fyd-eang am eu chwarae celfydd, eu parodrwydd i ymosod ac am weithio gyda'i gilydd fel grŵp o ffrindiau gorau. Yr Ewros oedd yr hwb mwyaf i broffil byd-eang Cymru ers cyn cof. Fe ddaeth 'Gorau Chwarae, Cyd Chwarae' yn fyw oherwydd iddo lwyddo i ddal yr hwyl optimistaidd a ddaeth o gemau rhagbrofol yr Ewros. Dechreuodd Cymru feddwl ac ymddwyn fel un genedl, yn gweithio tua'r un nod. Fe gofleidiodd Cymdeithas Pêl-Droed Cymru a'r chwaraewyr ein hanes, ein dwy iaith a'n hetifeddiaeth.